# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **28 Medi 2022**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Cynghorydd R.W.Wood** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Cynghorydd C.Williams** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, T.Bowen, W.Carpenter, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.Dacey, H.Davies, H.Davies, R.Davies, C.Galsworthy, N.Goldup-John, W.F.Griffiths, M.Harvey, J.Henton, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, N.Jenkins, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, S.Jones, C.Jordan, S.A.Knoyle, C.Lewis, D.Lewis, A.Llewelyn, A.Lodwig, R.Mizen, K.Morris, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, C.Phillips, R.Phillips, S.Pursey, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, P.Rogers, M.Spooner, D.Thomas, S.Thomas, D.Whitelock, a/ac L.Williams |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Curran, C.Griffiths, A.Jarrett, K.Jones, N.Pearce, M.Shaw, A.Thomas a/ac J.Woodman-Ralph |

---

1. **CYHOEDDIADAU MEIRI**

Er mawr ofid iddo, dywedodd y Maer wrth y cyngor am farwolaeth ddiweddar Sally Ann Reynolds (Harper gynt), merch y cyn-Ddirprwy Arweinydd, y Cynghorydd L Harper, a nith Arweinydd presennol y Cyngor, S K Hunt. Fel arwydd o barch, cafwyd munud o ddistawrwydd yng nghyfarfod y cyngor.

Ymunodd y cyngor â'r Maer i longyfarch holl athletwyr a swyddogion Cymru a fu'n cystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad yn ddiweddar:

Ar gyfer Athletau: Joe Brier a Hannah Brier

Ar gyfer Paffio: Zoe Andrews

Ar gyfer Bowlio Lawnt: Laura Daniels a Julie Thomas

Ar gyfer Rygbi Saith-bob-ochr: Callum Carson

Ar gyfer Nofio: Daniel Jervis

Ar gyfer Treiathlon: Iestyn Harret

A’r swyddogion:

Mark Adams, Chris Jones ac Alison Harris

Hefyd, gwahoddodd y Maer yr athletwyr a'r swyddogion hynny i dderbyniad maerol i dalu teyrnged i'w cyflawniadau.

## 2. <u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 3. <u>AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS</u>

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 4. <u>DIWEDDARIAD I APWYNTIAD CORFF ALLANOL</u>

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad a oedd i awdurdodi newid i benodi Dirprwy Faeres am weddill y Flwyddyn Ddinesig ac i awdurdodi newidiadau i ddyrannu seddi ar bwyllgorau'r cyngor i'r grwpiau gwleidyddol, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:**

1. Penodi Mrs Debbie Rees i rôl y Dirprwy Faeres am weddill y Flwyddyn Ddinesig.

2. Cymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth pwyllgorau fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

5. **CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG**

Cyflwynodd y Cynghorydd N Jenkins, Aelod y Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Lles yr adroddiad.

Mae'r Cynllun wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr ac mae wedi'i gymeradwyo gan bartneriaid, Llywodraeth Cymru a Bwrdd Addysg, Sgiliau a Lles y Cabinet mewn cyfarfod a gynhaliwyd ddoe. Rhoddwyd y Cynllun gerbron y cyngor heddiw am ganiatâd i'w gyhoeddi.

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, cymeradwyo'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg fel a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd i'w gyhoeddi ac i symud ymlaen â'i weithredu.

6. **HYSBYSIAD O GYNNIG O DAN ADRAN 10 O RAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Galwodd y Maer ar y Cynghorydd Goldup-John i gyflwyno ei gynnig a roddwyd gerbron y cyngor heddiw ar yr "Argyfwng Hinsawdd".

Anerchodd y Cynghorydd Goldup-John y cyngor:

"Diolch i'r cyngor am glywed y cynnig hwn heddiw. Dylai datgan yr Argyfwng Hinsawdd ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot cyfan, beth bynnag fo'i blaid, fod yn rhywbeth rydym i gyd yn ei groesawu.

Gellir gweld effeithiau newid hinsawdd eisoes ledled y byd gyda chorwyntoedd mwy dwys ac amlach yn America, llifogydd difrifol ym Mhacistan a sychder sy'n ddigon i'ch sobri yn Tsieina nad ydym wedi'u gweld ers cenedlaethau, os o gwbl. Yn lleol, rydym wedi gweld llifogydd torcalonnus yn fy nhref enedigol, Sgiwen. Hefyd, drwy'r fwrdeistref yn Aberdulais, Ystalyfera a Phort Talbot i enwi ond rhai. Ychwanegodd y tywydd poeth, a dorrodd bob record ym mis Gorffennaf eleni, bwysau ychwanegol ar breswylwyr lleol ynghyd â stormydd dinistriol sydd wedi arwain at ffocws rhanbarthol gwell ar waith yn ymwneud ag amddiffynfeydd môr ledled y fwrdeistref. Mae'r effaith y mae newid hinsawdd yn ei chael ar garreg y drws yn

niweidiol i breswylwyr Castell-nedd Port Talbot ac mae'n bryd ein bod yn mynnu newid. Nid ar gyfer ein cenhedlaeth ni'n unig, ond ar gyfer ein plant a'n hwyrion a phawb sy'n dilyn. Mae'r cloc yn tician o ran tanwyddau ffosil felly gadewch i ni beidio â bod yn ffyliaid sy'n gorffwys ar ddiffyg gweithredu eraill ond yn hytrach yn gwella a dilyn trywydd adnewyddadwy i Gastell-nedd Port Talbot. Felly, rwy'n cynnig yr hysbysiad o gynnig hwn i'r cyngor heddiw i ddatgan argyfwng hinsawdd.

Felly, mae'r cyngor hwn yn datgan argyfwng hinsawdd, ac yn galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud yr un peth.

- I alw ar Lywodraethau'r DU a Chymru i roi'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i ni i sicrhau bod Castell-nedd Port Talbot yn niwtral o ran carbon erbyn 2030.

- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r argyfwng hinsawdd a hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth o wirionedd newid yn yr hinsawdd ymhlith y boblogaeth leol.

- Gweithio gydag arbenigwyr perthnasol yn y meysydd ymchwil a datblygu i:

    - Adolygu'n strategaethau a'n cynlluniau gweithredu cyfredol ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd;
    - Nodi unrhyw newidiadau polisi neu gamau gweithredu pellach y gallem eu cyflawni, o fewn cwmpas ein pwerau a'n hadnoddau, i ateb her argyfwng hinsawdd;
    - Ceisio cymorth partneriaid lleol a chyrff ymchwil eraill i esbonio'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo a'r cyflawniadau a wnaed eisoes i'r gymuned, yn ogystal â thargedau ar gyfer y dyfodol.

- I ddiweddaru ar waith pellach a wnaed gan y cyngor yn y maes hwn yn flynyddol drwy adran amcanion lles corfforaethol Adroddiad Blynyddol o Berfformiad y cyngor. Gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, ein diwylliant a'n treftadaeth leol. “

Ymatebodd y Cynghorydd J Hurley, Aelod y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Lles, gan dynnu sylw at y ffaith:

bod y Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy wedi'i chyhoeddi ym mis Ebrill 2019. Wedi'i wreiddio yn hynny roedd Cynllun Gweithredu, ers y cyfnod hwnnw mae'r cyngor wedi comisiynu dadansoddiad o'r bylchau i nodi meysydd y strategaeth y mae angen gwaith pellach arnynt. Rhoddodd y dadansoddiad hwn fap llwybr i ni i'r cyngor symud ymlaen i leihau ei ôl troed carbon i bwynt lle gellir ei ddileu. Amlygwyd na ellir gwneud hyn ar wahân, i gyflawni hyn mae'n rhaid i'r cyngor weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cyhoeddus eraill, y trydydd sector, sefydliadau preifat ac fel Cynghorwyr gyda chymunedau a phreswylwyr.

Mynegwyd pryder gan rai Aelodau ynghylch pa effeithiau y byddai hyn yn eu cael ar lo arbennig o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Yn ogystal, codwyd ymholiad ynghylch a fyddai'r prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif a ddatblygwyd i fanyleb Llywodraeth Cymru i gyflawni sero net yn dal i gael ei gyflawni pe bai'r cyngor yn symud i gael ysgolion llai yn hytrach nag un ysgol fawr? Hefyd, sut byddai'r cyngor yn ariannu'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni carbon sero net? Cafwyd trafodaeth bellach ar ba fuddsoddiad pellach oedd ar y gweill i gefnogi'r cyngor i gyflawni sero net.

Eglurwyd bod y cyngor yn mynd ar drywydd nifer o brosiectau, yr ydym yn arwain ar un ohonynt ym mhrosiect y Fargen Ddinesig, a elwir yn Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel. Mae'r cyngor wedi adeiladu adeilad ynni-gadarnhaol ym Mharc Ynni Baglan a hwn oedd y cyntaf o'i fath yn y DU ac enillodd y Wobr Rhagoriaeth Adeiladu. Mae'r adeilad yn cefnogi anghenion ynni'r adeilad ond mae hefyd yn allforio ynni i'r grid cenedlaethol sy'n cael ei droi'n hydrogen. Roedd y cyngor hefyd yn gweithio gyda'r prifysgolion yn yr ardal ac yn aelod o glwstwr Ardaloedd Diwydiannol De Cymru a FLEXIS. Mae'r sefydliadau hynny'n gweithio gyda ni a chyda phleidiau eraill i geisio gwella pa mor gyflym yr ydym yn trosglwyddo i fyd carbon sero net.

Derbyniodd yr Aelodau eglurhad hefyd fod llifogydd Sgiwen yn destun achos cyfreithiol gyda'r Bwrdd Glo Cenedlaethol ar hyn o bryd.

Cytunodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S K Hunt, i ymateb i'r pryderon a godwyd yng nghyfarfod y cyngor, o ran yr ymholiadau ar gostau'r cynnig, yn ysgrifenedig o fewn amserlen briodol.

**PENDERFYNWYD:** Mabwysiadu'r cynnig "Argyfwng Hinsawdd".

7. **CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA HYSBYSIAD, DAN REOL 9.2 O REOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

8. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**